

fel y'i diwygiwyd, y'i hymestynnwyd neu a ail-weithredwyd o dro i dro ac unrhyw reoliadau a wneir o danynt.

2. Cwmpas

Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i Fannau Cyhoeddus yn Ninas a Sir Caerdydd y'u disgrifir ac y'u dangosir yn y Gorchymyn a'r Atodlenni a atodir at y Gorchymyn.

3. Hyd

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2019 a bydd yn parhau i fod ar waith am 3 blynedd o'r dyddiad hwn, oni bai y caiff ei ymestyn gan orchmynion pellach a wnaethpwyd dan bwerau statudol y Cyngor.

4. Teitl

Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Cyngor Caerdydd (Diogelu Mannau Cyhoeddus) (Rheoli Cŵn) 2019"; ac mae'n gosod y gofynion a'r gwaharddiadau canlynol.

5. Baw Cŵn

Ym mhob Man Cyhoeddus yn Ninas a Sir Caerdydd, fel y dangosir ar y cynllun a'r rhestr yn **Atodlen A**, mae'r gofynion canlynol yn berthnasol:

- 5.1(a) Os bydd ci'n baw ar unrhyw adeg, rhaid i'r Person â Chyfrifoldeb waredu'r baw o'r tir; a
- (b) Rhaid bod gan y person sy'n gyfrifol am gi ffordd briodol o godi baw'r ci hwnnw, a rhaid dangos hyn os bydd Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl yr Heddlu yn gofyn i'w gweld.

3.2 At ddibenion Erthygl 5.1(a):

- (i) Bydd rhoi'r baw mewn cynhwysydd ar y tir a ddarperir at ddibenion gwaredu gwastraff yn ffordd ddigonol o waredu'r baw o'r tir; a
- (ii) Ni fydd bod yn anymwybodol o'r ffaith bod ci wedi baw (boed hynny oherwydd peidio â bod yn agos at y ci neu fel arall), neu fod â ffordd o waredu'r baw yn esgus rhesymol dros fethu â gwaredu'r baw.

6. Cŵn ar Denynnau

6.1. Mewn unrhyw un neu rai o'r mynwentydd cyhoeddus a restrir ac a ddangosir yn **Atodlen B** y Gorchymyn hwn, rhaid i unrhyw Person â Chyfrifoldeb, ar unrhyw adeg, roi'r ci ar dennyn a'i reoli'n iawn.

6.2 Mewn unrhyw Fan Cyhoeddus arall yn Ninas a Sir Caerdydd, fel y dangosir ar y cynllun a'r rhestr yn **Atodlen A**, rhaid i berson sy'n gyfrifol am gi, ar unrhyw adeg, roi a chadw'r ci ar dennyn a'i reoli'n iawn yn unol â chyfarwyddyd Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl yr Heddlu.

6.3 At ddibenion Erthygl 6.2, bydd Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl yr Heddlu ond yn cyfarwyddo person i roi a chadw ci ar dennyn os oes angen rhesymol am i'r ci gael ei reoli er mwyn osgoi niwsans neu ymddygiad gan y ci sy'n debygol o achosi gofid neu aflonyddu i unrhyw berson neu anifail neu aderyn arall ar y tir.

7. Eithrio Cŵn (Meysydd Chwarae Amgaeedig i Blant)

7.1 Mae person sy'n gyfrifol am gi wedi'i wahardd rhag mynd â'r ci hwnnw i mewn i, neu ganiatáu i gi fynd i mewn i ac aros mewn, unrhyw faes chwarae amgaeedig i blant a ddisgrifir neu a restrir yn **Atodlen C** y Gorchymyn hwn.

8. Troseddau a Chosbau

8.1 Bydd methu â chydymffurfio â'r gofynion neu'r cyfyngiadau a osodir yn Erthygl 5, 6 neu 7 y Gorchymyn hwn yn drosedd, oni bai:

- (a) Bod gan y person esgus rhesymol dros fethu â gwneud felly;
- (b) Bod perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sy'n gyfrifol am y tir wedi caniatáu (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo fethu â gwneud felly; neu
- (c) Bod y person wedi'i eithrio dan Erthygl y Gorchymyn hwn.

8.2 Bydd unrhyw berson sy'n euog o drosedd dan y Gorchymyn hwn yn agored, wedi collfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (ar ddyddiad y Gorchymyn hwn, £1,000 yw hyn).

8.3 Gall Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl yr Heddlu gyhoeddi Hysbysiad Cosb Benodedig i unrhyw y credir ei fod wedi cyflawni trosedd dan y Gorchymyn hwn. £100 fydd y Gosb Benodedig. Bydd talu'r Gosb Benodedig o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn atal y posibilrwydd o erlyniad.

9. Eithriadau

Ni fydd y gofynion a'r gwaharddiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol i unrhyw berson sydd:

- (i) Wedi'i gofrestru'n ddall, yn berson sydd â nam ar ei olwg neu'i glyw dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall;
- (ii) Ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, medrusrwydd corfforol, cydlynid corfforol, neu allu i godi, cludo neu symud gwrthrychau bob dydd, mewn perthynas â chi wedi'i hyfforddi gan elusen gofrestredig ac y mae'n dibynnu arno am gymorth; neu
- (iii) Yn defnyddio ci sy'n gweithio at ddibenion gorfodi'r gyfraith, dyletswyddau milwrol neu wasanaethau brys statudol (chwilio ac achub).

10. Apelio

Gall unrhyw berson (y'i diffynir yn unigolyn sy'n byw mewn ardal gyfyngedig neu sy'n gweithio'n rheolaidd yn yr ardal honno neu sy'n ymweld â hi'n rheolaidd) gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn, yn unol ag Adran 66 y Ddeddf, trwy gais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o ddyddiad y Gorchymyn.

11. Dilysrwydd (Dileu)

Os bydd unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn annilys neu oni ellir eu gorfodi am unrhyw reswm a bennir gan lys awdurdod cymwys, caiff y ddarpariaeth honno ei dileu a bydd gweddill darpariaethau'r Gorchymyn yn parhau i fod mewn grym llawn fel pe bai'r Gorchymyn wedi'i weithredu gyda'r ddarpariaeth anghyfreithlon annilys / na ellir ei gorfodi wedi'i dileu.

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR
DINAS A SIR
CAERDYDD yma
ym mhresenoldeb:-

Llofnod Awdurdodedig

Dyddiedig **/**/****

ATODLENNI

ATODLEN A - Pob Man Cyhoeddus yn Ninas a Sir Caerdydd

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Hamdden-parciau-a-diwylliant/Gorchmynion-Amddiffyn-Mannau-Cyhoeddus/Pages/default.aspx>

ATODLEN B - Mynwentydd Cyhoeddus – Rhestr a Chynlluniau

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Hamdden-parciau-a-diwylliant/Gorchmynion-Amddiffyn-Mannau-Cyhoeddus/Pages/default.aspx>

ATODLEN C - Meysydd Chwarae Amgaeedig i Blant – Rhestr a Chynlluniau

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Hamdden-parciau-a-diwylliant/Gorchmynion-Amddiffyn-Mannau-Cyhoeddus/Pages/default.aspx>

